Llywodraeth EM

CWTOGI AR DROSEDDU DDWY FLYNEDD YN DDIWEDDARACH

Crynodeb i bartneriaethau lleol

CWTOGI AR DROSEDDU

RHAI FFEITHIAU ALLWEDDOL

Mae nifer y troseddau wedi lleihau 45% ar y cyfan ers cyrraedd ei lefel uchaf ganol y 1990au ac mae'n parhau ar ei lefel isaf ers dechrau cynnal Arolwg Troseddu Prydain yn 1981. Mae bwrgleriaeth ddomestig a throseddau yn ymwneud â cherbydau wedi mwy na haneru ers 1997. Mae'r tebygolrwydd y byddwch yn dioddef trosedd dreisgar wedi gostwng fwy na thraean.

Drwy strategaethau lleihau troseddau effeithiol a gwaith partneriaid lleihau troseddau, rydym wedi gwneud cryn gynnydd o ran mynd i'r afael â throseddau ar bob cam a mynd i wraidd yr hyn sy'n achosi troseddau.

HERIAU A NEWIDIADAU

Mae amodau economaidd yn anos bellach ac mae adeiladu ar ein cyflawniadau yn dasg heriol. Mae rhai mathau o droseddau caffaelgar, megis bwrgleriaeth, yn dangos arwyddion eu bod ar gynnydd. Ond mae eraill yn parhau i leihau, er enghraifft troseddau yn ymwneud â cherbydau.

Mae troseddau yn parhau i fod yn un o brif bryderon y cyhoedd ym Mhrydain; dim ond yr economi sy'n peri mwy o bryder. Nid yw ofn troseddau yn lleihau ar raddfa mor gyflym â chyfraddau troseddau gwirioneddol. Ac mae'r bwlch o ran canfyddiad yn bwysig. Mae'n creu cylch negyddol o hyder isel mewn cymunedau lleol, gan arwain at ofn, ymddieithriad ac ymateb llai effeithiol. Mae troi gwelliannau ystadegol yn wahaniaethau gwirioneddol i bobl yn eu cymdogaethau yn allweddol.

Roedd adolygiad Louise Casey (*Engaging Communities in Fighting Crime*, a gyhoeddwyd yn ystod haf 2008) yn fodd i ni ddeall yn well yr hyn sy'n ennyn hyder y cyhoedd - yn cynnwys yr awydd i gael rhagor o wybodaeth am droseddau. Mae'r gwaith o ddiwygio heddluoedd yn mynd ar drywydd mesurau i leihau biwrocratiaeth ac ymateb i'r cyhoedd drwy fentrau fel yr Addewid Plismona a'r targed unigol i gynyddu hyder y cyhoedd.

Er mwyn ateb yr heriau hyn ac adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r hyn y mae angen ei gyflawni, mae'r Llywodraeth wedi diweddaru'r blaenoriaethau yn y strategaeth droseddau a'u mireinio. Lansiwyd y diweddariad gan y Prif Weinidog ym mis Mai 2009.

AMCANION LLEIHAU TROSEDDAU

Mae pryder y cyhoedd wrth wraidd dull y Llywodraeth o weithredu ar droseddau. Ei hamcanion felly yw mynd i'r afael â'r troseddau hynny sydd bwysicaf i'r cyhoedd: ymddygiad gwrthgymdeithasol; troseddau yn ymwneud ag eiddo, yn enwedig bwrgleriaeth ddomestig; a throseddau treisgar, yn enwedig troseddau yn ymwneud â chyllyll.

Mae'r Llywodraeth wedi parhau i roi pwysau ar droseddwyr cyfundrefnol hefyd. Lansiodd y strategaeth gwrthderfysgaeth ddiwygiedig (CONTEST) ym mis Mawrth 2009.

Y DULLIAU Â BLAENORIAETH

HERIAU I BARTNERIAETHAU

Cryfder allweddol y Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn (CDRP) a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSP) yng Nghymru a Lloegr erioed fu y gellir cyflawni mwy drwy gyfuno adnoddau na thrwy waith asiantaethau unigol. Rhaid targedu adnoddau ariannol prin yn ystod y ddwy flynedd nesaf lle bo'r angen mwyaf. Mae'r amgylchedd newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni seilio ein cynlluniau cyflawni ar y pum blaenoriaeth â ffocws newydd isod a sicrhau bod y cyhoedd wedi'u cynnwys. Nodir rhai heriau a awgrymwyd er mwyn i CDRP/CSP eu hystyried isod. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac ni fydd pob un yn berthnasol ym mhob ardal. Bwriedir iddi ategu Nodweddion Partneriaethau Effeithiol.

CYMRYD CAMAU CYNNAR I ATAL TROSEDDAU

Mae atal troseddau yn gofyn am ymyrraeth gynnar mewn sefyllfaoedd neu gyda phobl er mwyn atal y troseddu rhag mynd yn waeth, drwy ddefnyddio adnoddau a phwerau yn effeithiol a thrwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddau, yn enwedig alcohol a chyffuriau. Mae hyn yn cynnwys ymyrryd yn gynnar ym mywydau pobl ifanc sy'n wynebu'r risg o ddioddef neu gyflawni trosedd, drwy'r Cynllun Gweithredu Troseddau Ieuenctid (YCAP).

- A yw'r CDRP/CSP yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a phwerau priodol i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, er enghraifft drwy gau safleoedd sy'n peri niwsans, yn cynnwys tai crac, gan ddefnyddio pwerau gwahardd sifil?
- A oes gan y bartneriaeth asesiadau strategol a strategaethau lleol cadarn ar waith i nodi a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddau, yn enwedig alcohol a chyffuriau?
- A yw pob partner yn chwarae rhan effeithiol yn y gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r bartneriaeth? Er enghraifft, a yw awdurdodau iechyd lleol, gwasanaethau plant, darparwyr tai a hyfforddiant yn chwarae rhan lawn yn y bartneriaeth ac wedi'u cynrychioli'n briodol ynddi?
- Yn Lloegr, a sefydlwyd Partneriaethau Ysgolion Mwy Diogel, a hyrwyddwyd yn YCAP, ym mhob ysgol yn ardal y CDRP?
- A yw'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Plant i gydlynu'r broses o ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc sy'n wynebu'r risg o droseddu neu aildroseddu?
- A yw'r bartneriaeth yn ymgysylltu â chynghorwyr dylunio'r heddlu, timau diogelwch cymunedol, darparwyr tai a swyddogion cynllunio a phriffyrdd i leihau troseddau wrth i lefydd newydd gael eu hadeiladu ac wrth i ardaloedd sy'n bodoli eisoes gael eu hadfywio neu adeiladau eu hadnewyddu?

TROI'R FANTOL YN ERBYN TROSEDDWYR

Mae'r agwedd hon ar y strategaeth droseddau yn canolbwyntio ar sicrhau bod troseddwyr yn cael eu cosbi'n gyflym, lle y bo angen, tra rhoddir cefnogaeth iddynt

newid eu ffordd a rhoi'r gorau i droseddu drwy raglenni sy'n bodoli eisoes fel y rhaglen Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth (PPO) a'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (DIP), a dulliau gweithredu fel rheoli troseddwyr mewn ffordd integredig (IOM). Caiff partneriaethau eu cefnogi drwy fentrau fel y rhaglen Gwyliadwriaeth.

- Pa gamau y mae'r CDRP/CSP yn eu cymryd i gyflwyno trefniadau IOM mwy cyson a chydgysylltiedig yn sgîl datganiad polisi'r Llywodraeth (a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Amddiffyn ym mis Mehefin 2009)?
- Pa mor effeithiol y mae'r bartneriaeth yn datblygu strategaeth i ymdrin â gostwng aildroseddu? (Bydd y Gwasanaeth Prawf yn dod yn bartner cyflawni ffurfiol mewn CDRP/CSP a phartneriaethau fydd yn gyfrifol am ostwng aildroseddu).
- Pa gamau y mae'r bartneriaeth leol yn eu cymryd i sicrhau bod ei chynllun PPO lleol yn canolbwyntio ar y troseddwyr mwyaf niweidiol yn sgîl y canllawiau ar y cyd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2009 gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Amddiffyn?
- A yw'r bartneriaeth yn sicrhau bod cynlluniau DIP yn effeithiol o ran mynd i'r afael â throseddwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau a lleihau i ba raddau y byddant yn aildroseddu?
- A yw'r ardal leol yn darparu triniaeth briodol am gyffuriau a chymorth ychwanegol ar gyfer yr holl ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y troseddwr? A gaiff cosbau eu cyfuno ag ymyriadau troseddau eraill fel cynlluniau atgyfeirio arestiadau alcohol peilot?
- A ddefnyddir Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol mewn ffordd arloesol i gyfyngu ar weithgareddau'r sawl sy'n gysylltiedig â throseddau difrifol?

GWEINYDDU CYFIAWNDER YMATEBOL, GWELADWY

Gweledigaeth y Llywodraeth yw system cyfiawnder troseddol sy'n sicrhau bod dioddefwyr wrth ei gwraidd ac yn ysbrydoli ymgysylltiad a hyder y cyhoedd. Mae gweinyddu cyfiawnder ymatebol, gweladwy lle bydd troseddwyr yn wynebu - ac y dangosir yn gyhoeddus eu bod yn wynebu - ganlyniadau eu troseddau yn rhan hollbwysig o gynyddu hyder y cyhoedd.

- A yw'r CDRP/CSP yn defnyddio dulliau cyfathrebu lleol i roi cyhoeddusrwydd i gollfarnau a chosbau troseddwyr?
- A yw pob troseddwr sy'n oedolyn ac sy'n rhan o gynllun Ad-dalu Cymunedau yn gwisgo siaced gwelededd uchel sydd ag enw'r cynllun arno, fel y dylai wneud? Ac a yw'r bartneriaeth yn defnyddio taflenni lleol a dulliau cyfathrebu eraill i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o waith a gyflawnir fel cosb ac i ad-dalu'r gymuned?
- A yw'r bartneriaeth wedi sefydlu cydberthnasau priodol â llysoedd ynadon lleol ac wedi datblygu strategaeth i sicrhau bod tystion a dioddefwyr yn fwy bodlon (er enghraifft, drwy strategaeth gyfathrebu ar y cyd)?
- A ddefnyddir deddfwriaeth drwyddedu i fynd i'r afael â safleoedd sy'n cyfrannu at droseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol? A ddefnyddir adnoddau a phwerau alcohol eraill mewn ffordd effeithiol?

RHOI'R CYHOEDD WRTH Y LLYW

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i rymuso cymunedau drwy wrando ar bryderon y cyhoedd, rhoi rhagor o wybodaeth iddynt a sicrhau bod y cyhoedd a chymunedau yn rhan o'r broses benderfynu, er enghraifft drwy fapio troseddau, yr Addewid Plismona a thimau plismona yn y gymdogaeth.

- A oes gan y CDRP/CSP gysylltiadau priodol â Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB)? Er enghraifft, bydd gweithio ar y cyd ag LCJB yn galluogi partneriaethau i wneud cais am arian gan y Gronfa Gymunedol newydd (asedau arian parod a atafaelwyd gan droseddwyr) i gefnogi prosiectau cymunedol.
- A all pobl leol fynegi barn ar ba weithgaredd gwneud iawn y bydd troseddwyr ifanc yn ei wneud ac enwebu prosiectau neu gynlluniau ar gyfer Ad-dalu Cymunedau?
- A yw'r bartneriaeth yn hyrwyddo'r syniad o ddefnyddio gwybodaeth am droseddau lleol, mapiau troseddau a chyfarfodydd plismona yn y gymdogaeth?
- A yw strategaeth y bartneriaeth yn cyflawni blaenoriaethau'r cyhoedd ac yn mynd i'r afael â'u pryderon?
- Beth a wna'r bartneriaeth i annog dioddefwyr a thrydydd partïon i roi gwybod am droseddau na chânt eu cofnodi'n ddigonol, fel troseddau casineb?

GWEITHREDU AR Y LEFEL GYWIR

Mae'r Llywodraeth yn sylweddoli bod gweithwyr proffesiynol lleol yn gwybod beth sydd bwysicaf i'w cymunedau. Mae'r Swyddfa Gartref yn rhoi cymorth, arweiniad strategol cenedlaethol a chamau gweithredu ar leihau troseddau tra'n rhyddhau partneriaid lleol i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol, a gyflawnir drwy Gytundebau Ardal Lleol yn Lloegr a diwygiadau ym maes plismona.

- Yn Lloegr, a yw'r CDRP yn ymwybodol o waith y Bartneriaeth Gwella ac Effeithlonrwydd Rhanbarthol ac a yw wedi gofyn iddi am gymorth (os yw ar gael)?
- A yw bwrdd gweithredol y bartneriaeth yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ar lefel strategol addas (er enghraifft, rheolwyr bwrdeistrefi, cadeiryddion Ymddiriedolaethau'r GIG, prif swyddogion awdurdodau lleol) i roi safbwynt strategol a gweithredu fel hyrwyddwyr yn eu sectorau?
- A yw pob CDRP yn Lloegr yn cyflawni ei blaenoriaethau a bennwyd gan y Cytundeb Ardal Lleol?
- A yw'r bartneriaeth yn monitro ei pherfformiad ac yn ei reoli yng nghyd-destun yr ystod lawn o flaenoriaethau diogelwch cymunedol, gan ofyn am gymorth fel y bo angen i sicrhau gwelliant parhaus?
- A yw'r bartneriaeth yn gweithio gyda'r sector trafnidiaeth i fynd i'r afael â throseddau ac anhrefn ar drafnidiaeth gyhoeddus?
- A yw'r bartneriaeth yn gweithio gyda busnesau a manwerthwyr lleol i fynd i'r afael â throseddau yn erbyn busnesau?
- A yw'r bartneriaeth yn ymwybodol o'r ffaith bod y Cynllun Gweithredu ar Fynd i'r Afael â Thrais yn cael ei adnewyddu a bod camau gweithredu'r bartneriaeth o fewn y Cynllun hwnnw yn ceisio creu cyswllt rhwng y strategaeth a'r angen i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol ar droseddau treisgar?

EDRYCH I'R DYFODOL

Bydd partneriaethau lleol yn parhau i gynnal asesiadau strategol (o leiaf unwaith y flwyddyn) a datblygu cynlluniau partneriaeth i ymateb i'r blaenoriaethau lleihau troseddau. Bydd partneriaethau a gweithwyr proffesiynol lleol, sy'n gwybod beth sydd bwysicaf i'w cymunedau, yn parhau i benderfynu ar y ffordd orau o ymateb i anghenion y cymunedau lleol hynny. Bydd y Llywodraeth yn parhau i fonitro perfformiad er mwyn sicrhau y cyflawnir ei hymrwymiadau cenedlaethol. Bydd yn rhoi cymorth ac arweiniad strategol mewn ardaloedd lleol sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

Mae copïau o'r strategaeth droseddau lawn wedi'i diweddaru, *Cwtogi ar Droseddu: Ddwy Flynedd yn Ddiweddarach. Diweddariad o Strategaeth Droseddau 2008-11* (ISBN: 978-1-84726-917-1) ar gael o wefan y Swyddfa Gartref yn: www.homeoffice.gov.uk/documents/crime-strategy-07/

Mae copïau caled o'r llyfryn ar gael o Linell Archebu Prolog y Swyddfa Gartref (gweler isod). Dyfynnwch gyfeirnod CDSD28

Os oes angen rhagor o gopïau o'r daflen hon arnoch, cysylltwch â Llinell Archebu Prolog y Swyddfa Gartref gan ddyfynnu cyfeirnod CDSD31
Ffôn: 0870 241 460 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 6.00pm)
E-bost: dpas@prolog.uk.com

ⓗ Hawlfraint y Goron 2009

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth EM, Gorffennaf 2009.
Cyf: 297310. ISBN: 978-1-84987-080-1